# YR HAWL I FARW

Barchus gynulleidfa.

Yn dilyn dau achos llys diweddar, mae'r cwestiwn ynglŷn â chynorthwyo cleifion i farw, pan nad oes gwella iddyn nhw, yn bwnc trafod unwaith eto. Ac rydw innau am ofyn i chi heno 'ma a ydy hi'n iawn helpu rhywun i farw pan fo hynny'n arbed poen a dioddefaint?
Mi wela i rai ohonoch chi'n ysgwyd pen yn negyddol ac eraill

yn amneidio i ddangos eich cytundeb. Eraill yn ymddangos yn anghyfforddus ac yn anniddig.

'Does gan neb ohonom hawl i helpu nac i fod yn rhan o lofruddio unrhyw un,' sy'n mynd trwy feddwl ambell un ohonoch.

Ond a ydych chi wedi gweld rhywun annwyl i chi yn dioddef gan wybod nad oes obaith iddo ef neu hi wella? Mi wn i am berson sydd wedi bod yn dioddef o glefyd motor neuron ers bron i ddeg mlynedd. Yn y cyfamser mae ei wraig wedi cael triniaeth ar ei chalon ac mae ei ferch wedi gorfod dychwelyd i fyw at ei rhieni. Dydy hi, sy'n ddeg ar hugain oed, ddim yn gallu byw bywyd naturiol ac mae'n syndod bod ei phriodas wedi parhau. Mae ei gŵr yn dod at nhw bob penwythnos ac mae'r cwpwl ifanc yn cael rhyw bythefnos o wyliau y flwyddyn. Pa fath o fywyd ydy hynny i bâr ifanc? Dydy ei thad ddim wedi siarad gair ers o leiaf bum mlynedd a does dim ymateb i'w gael ganddo.

Fel Cristnogion mae'r teulu yma yn disgwyl i bethau ddigwydd yn naturiol ac maen nhw'n dweud bod eu ffydd yn eu cynnal. Maen nhw hefyd yn dadlau y bydden nhw'n teimlo'n euog pe baen nhw'n cynorthwyo'r tad i farw. Maen nhw'n credu mai rhodd gan Dduw ydy bywyd a'i bod yn sanctaidd.

Ond y cwestiwn ydy, a oes gan berson hawl i ddewis marw mewn dull urddasol? Bu fy nhad i farw yn eithriadol o annisgwyl o drawiad ar ei galon. Chawson ni fel teulu ddim rhybudd o gwbl a dim cyfle i ffarwelio ag ef ond y cysur i ni oedd na chafodd e erioed ei amharchu. Fu dim rhaid iddo fynd i ysbyty i gael pob math o archwiliadau corfforol a chafodd gadw ei urddas. Mae rhai pobl yn llusgo byw am amser hir ac yn colli pob hunan barch.

Onid ydy hynny yn rhan o hawl person sy'n dioddef o gyflwr na ellir ei wella? Oni ddylai pawb gael mwynhau bywyd o ansawdd hyd y diwedd? Bywyd heb boen eithafol, bywyd y gallwn ni ei reoli ein hunain, bywyd gwerth ei fyw. Os mai dyma'r unig fywyd a gawn, pam mae'n rhaid ei fyw unwaith ein bod wedi colli popeth oedd yn ei wneud yn werth ei fyw?

Dyna ddadleuon dyneiddwyr dros gefnogi euthanasia. Ond maen nhw'n pwysleisio y dylai'r person sy'n dewis marw wneud hynny pan fo yn ei iawn bwyll a phan nad oes gobaith gwellhâd.
Maen nhw hefyd yn mynnu bod y claf yn derbyn cwnsela; nad oes pwysau yn cael ei roi arno; bod y trafodaethau yn digwydd ym mhresenoldeb tystion; a'u bod yn cael barn mwy nac un meddyg.

Diolch am eich gwrandawiad, gyfeillion, ac ewch oddi yma heno i gnoi cil ar y mater.